

MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL

Bil Plismona a Throsedd

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 29.2. Mae RhS 29 yn rhagnodi bod rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol, gerbron y Cynulliad Cenedlaethol os yw Bil Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru at bwrpas sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol neu sy'n addasu'r cymhwysedd hwnnw.
2. Cyflwynwyd y Bil Plismona a Throsedd (y "Bil") yn Nhŷ'r Cyffredin ar 10 Chwefror 2016. Cytunodd Tŷ'r Cyffredin ar gynnig cario drosodd ar gyfer y Bil hwn, ac ail-gyflwynwyd y Bil yn Nhŷ'r Cyffredin ar 19 Mai. Gellir gweld y Bil yn: <http://services.parliament.uk/bills/2015-16/policingandcrime.html>

Crynodeb o'r Bil a'i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan y Swyddfa Gartref. Prif amcanion polisi Llywodraeth y Deyrnas Unedig o ran y Bil, fel y gwelir yn y Nodiadau Esboniadol i'r Bil, yw gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y lluoedd heddlu ymhellach, gan gynnwys drwy gydweithio agosach gyda'r gwasanaethau brys eraill; gwella atebolrwydd democrataidd lluoedd yr heddlu a gwasanaethau tân ac achub; codi hyder y cyhoedd yn yr heddlu; cryfhau'r systemau diogelu ar gyfer pobl sy'n destun ymchwiliad gan yr heddlu neu'n dod i gysylltiad â nhw; sicrhau bod yr heddlu ac asiantaethau eraill sy'n gorfodi'r gyfraith â'r pwerau angenrheidiol i atal, darganfod ac ymchwilio i droseddau; a diogelu plant a phobl ifanc rhag dioddef camfanteisio rhywiol.
4. Mae naw Rhan i'r Bil. Mae'r memorandwm hwn yn ymwneud â chymalau penodol yn Rhan 4 (sy'n cynnwys nifer o ddiwygiadau i bwerau'r heddlu, gan gynnwys mewn perthynas â phwerau dan rannau 135 ac 136 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983), a chymal yn Rhan 9 (sy'n cynnwys darpariaethau amrywiol a chyffredinol, gan gynnwys gwelliant i Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 mewn perthynas â throseddau camfanteisio'n rhywiol ar blant).

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Ceisir cydsyniad y Cynulliad ar gyfer darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â phwerau'r heddlu dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ("Deddf 1983") a'r darpariaethau yn ymwneud â materion camfanteisio ar blant. Mae'r cyfeiriadau yn y Bil mewn perthynas â'r fersiwn a gyhoeddwyd ar 19 Mai 2016 (Bil 003 2016-17).
6. Ceisir cydsyniad hefyd ar gyfer gwelliannau 94, 95 a 96 i'r Bil a gyflwynwyd gan yr Ysgrifennydd Cartref, Theresa May ar 6 Mehefin, ac a

gyhoeddwyd ar 7 Mehefin. Mae rhain hefyd yn welliannau i Ddeddf 1983 ac fe gyfeirir atynt ym mharagraffau 13 ac 14 isod.

Pwerau'r heddlu dan Ddeddf 1983

7. Mae Pennod 3 o Ran 4 y Bil yn diwygio Deddf 1983, yn benodol adrannau 135 (gwarant i chwilio am gleifion a'u symud) a 136 (pobl ag anhwylder meddwl sy'n cael eu canfod mewn mannau cyhoeddus).
8. Mae adrannau 135 ac 136 o'r Ddeddf yn rhoi pwerau i'r heddlu symud dros dro unrhyw berson sydd i'w weld yn dioddef o anhwylder iechyd meddwl ac sydd angen gofal ar frys, o eiddo preifat (adran 135) neu o fan cyhoeddus (adran 136) i "fan diogel" a bennir yn adran 135(6), er mwyn medru cynnal asesiad iechyd meddwl a gwneud trefniadau priodol ar gyfer eu gofal os oes angen.
9. Mae cymal 74 yn ymestyn adran 136 i bob man ac eithrio anheddau preifat lle mae'r person yn byw fel rheol, ac yn ei gwneud yn ofynnol i'r heddlu ymgynghori â gweithiwr proffesiynol iechyd meddwl (wedi'i nodi naill ai yn Neddf 1983 neu mewn Rheoliadau) cyn penderfynu symud person i fan diogel, neu ei gadw yno.
10. Mae cymal 75 yn gosod cyfyngiadau ar fannau y gellir eu defnyddio fel mannau diogel, drwy wahardd defnyddio celloedd yr heddlu fel mannau diogel ar gyfer plant a dweud bod modd eu defnyddio fel man diogel ar gyfer oedolion dan amodau penodol a nodwyd mewn rheoliadau yn unig. Mae cymal 73 hefyd yn ehangu'r diffiniad o "fan diogel" drwy gael gwared â'r gofyniad bod rhaid i breswlydd y man diogel fod yn barod i dderbyn y claf dros dro.
11. Mae cymal 76 yn gostwng uchafswm y cyfnod y gellir cadw person mewn man diogel o 72 awr i 24 awr, er bod modd i ymarferydd meddygol cofrestredig ymestyn hyn dan amodau penodol am gyfnod heb fod yn fwy na 12 awr.
12. Mae cymal 77 yn darparu ar gyfer "chwiliadau diogelu" lle mae gwarant wedi'i roi dan adran 135, lle mae gan yr heddlu sail resymol dros gredu bod y person yn peryglu ei hun neu rywun arall, a'i fod yn cuddio eitem a fedrai achosi anaf corfforol i'w hun neu rywun arall.
13. Mae gwelliannau 94 a 95 a gyflwynwyd ar 6 Mehefin yn ymwneud â chymal 74. Mae cymal 74 (4) eisoes yn atal yr heddlu rhag cael mynediad i eiddo domestig i symud person i "fan diogel". Mae gwelliant 94 yn sicrhau bod y cyfyngiad hwn hefyd yn berthnasol pan fo swyddogion yr heddlu eisoes mewn eiddo domestig cyn iddynt ddod i wybod bod person ag anhwylder meddyliol yn yr eiddo hwnnw. Mae gwelliant 95 yn un canlyniadol ar welliant 94.
14. Cyflwynwyd gwelliant 96 hefyd ar 6 Mehefin, ac mae'n ymwneud â chymal 77 sy'n darparu ar gyfer chwiliadau diogel, fel y cyfeirir atynt ym

mharagraff 12 uchod. Mae cymal 77 eisoes yn nodi nad oes modd defnyddio'r pŵer i'w gwneud yn ofynnol i berson dynnu unrhyw ddilledyn yn gyhoeddus (ac eithrio ambell ddilledyn allanol). Mae'r gwelliant yn sicrhau bod y cyfyngiad hwn ar arfer y pŵer yn berthnasol hefyd pan nad yw'r person mewn man cyhoeddus.

15. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'r darpariaethau a nodir uchod yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau eu bod yn ymwneud ag atal, trin a lleddfu anhwylder meddwl a gofalu am bobl agored i niwed dan baragraffau 9 a 15 Rhan 1, Atodlen 7 Deddf Llywodraeth Cymru 2006.

Darpariaethau yn ymwneud â materion camfanteisio ar blant

16. Mae cymal 135 yn diwygio adran 51 o Ddeddf Troseddau Rhywiol 2003 i egluro bod lluniau sy'n cael eu ffrydio neu drosglwyddo mewn ffordd arall yn dod o dan yr ystod o droseddau sydd wedi'u nodi dan adrannau 48 i 50 o Ddeddf 2003 mewn perthynas â'r canlynol:- achosi neu ysgogi puteindra neu bornograffi plant; rheoli plentyn sy'n puteinio neu sy'n ymwneud â phornograffi; a/neu trefnu neu hwyluso puteindra neu bornograffi plant. Mae'r troseddau presennol yn cyfeirio at "recordio" delweddau yn unig, felly gellid dadlau dros eithrio darlledu byw, ffrydio neu drosglwyddo delweddau.
17. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae cymal 133 yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan ei fod yn ymwneud â "diogelu a llesiant plant" dan bennawd 15 - lles cymdeithasol Rhan 1, Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.
18. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellwyd uchod yn berthnasol mewn perthynas â Chymru.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

19. Ym marn Llywodraeth Cymru, mae'n briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn yn y Bil hwn ar gyfer y DU gan mai'r Bil yw'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf addas a chymesur i alluogi cymhwyso'r darpariaethau hyn mewn perthynas â Chymru. Mae natur cydgysylltiedig systemau gweinyddol perthnasol Cymru a Lloegr yn golygu mai'r ffordd fwyaf effeithiol a phriodol yw symud ymlaen â darpariaethau ar gyfer y ddwy Lywodraeth ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol. Bydd hyn yn galluogi'r partneriaid sydd heb eu datganoli megis yr Heddlu (a lle bo'n berthnasol, y Llysoedd) i ddarparu partneriaeth a chymorth effeithiol i gryfhau'r fframwaith amddiffyn plant, diogelu rhag camfanteisio a diogelu iechyd meddwl ar yr un pryd yn y ddwy wlad.

Goblygiadau ariannol

20. Byddai'r darpariaethau sy'n diwygio Deddf Iechyd Meddwl 1983 yn arwain at rywfaint o faich o ran costau. Ar sail Aseiad Effaith Ariannol y Swyddfa Gartref, amcangyfrifir mai'r gost ar gyfer gwelyau seiciatrig ychwanegol mewn mannau iechyd diogel yng Nghymru yw tua £2.98M y flwyddyn, sy'n sicrhau adnoddau ar gyfer 4 gwely ychwanegol. Gwnaed y cyfrifon dros dro hyn gan ddefnyddio data cyfatebol a gymerwyd o wybodaeth y Swyddfa Gartref. Fodd bynnag, byddai costau o'r fath ond yn debyg o godi pe na bai modd diwallu'r cynnydd a ragwelir mewn angen gan ddefnyddio'r adnoddau sydd eisoes yn bodoli.
21. Nid oes disgwyl i ddarpariaethau mewn perthynas â chamfanteisio'n rhywiol ar blant arwain at unrhyw gostau.

Rebecca Evans AC

Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol

Dyddiad: *Mehefin 2016*